## HYSBYSIAD GALW AM DALU'R DRETH GYNGOR

**DATGANIAD AR OSTYNGIADAU AC ESEMPTIADAU**

Mae'r datganiad hwn yn rhan o'r Hysbysiad Galw:-

| YR HYN A NODIR AR Y BIL | GOSTYNGIAD | RHESWM AM Y GOSTYNGIAD |
|---|---|---|
| Gostyngiad Person Sengl | 25% | Dim ond un oedolyn sy'n byw mewn eiddo a dyna ei unig gartref neu ei brif gartref. |
| Gostyngiad Diystyru | 25% | Dim ond un oedolyn sy'n cael ei ystyried pan fyddwn yn cyfrifo faint o oedolion sy'n byw yn yr eiddo neu os rhoddir dau ddyfarniad o 25% nid ystyrir unrhyw oedolion sy'n byw yn yr eiddo. Gweler isod am esboniad pellach. |

**Os ydych wedi cael gostyngiad neu esemptiad, mae'n rhaid i chi roi gwybod os yw'n anghywir neu os bydd eich amgylchiadau'n newid mewn unrhyw ffordd. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni o fewn 21 diwrnod, gallech gael dirwy o £50.**

**NODIADAU ESBONIADOL**

1. **GOSTYNGIADAU -**

Os mai dim ond un oedolyn sy'n byw mewn eiddo, bydd gostyngiad o 25%. Caiff y bobl ganlynol eu diystyru pan fyddwn yn cyfrifo faint o oedolion sy'n byw mewn eiddo -

- Myfyrwyr llawn amser, nyrsys sy'n fyfyrwyr, prentisiaid a hyfforddeion hyfforddiant ieuenctid.
- Cleifion hirdymor mewn ysbyty a phobl mewn cartrefi gofal.
- Pobl â nam meddyliol difrifol.
- Pobl sy'n aros mewn rhai hosteli a llochesi nos.
- Gweithwyr gofal sy'n gweithio am gyflog isel, fel arfer i elusennau.
- Pobl ifanc 18 a 19 oed sydd yn yr ysgol neu sydd newydd adael yr ysgol.
- Pobl dros 18 oed y mae ganddynt hawl i gael budd-dal plant.
- Pobl sy'n gofalu am rywun ag anabledd nad yw'n briod iddo, yn bartner iddo nac yn blentyn o dan 18 oed.
- Aelodau o gymunedau crefyddol fel mynachod neu leianod.
- Aelodau a dibynyddion y lluoedd tramor.
- Gwŷr/gwragedd i fyfyrwyr nad ydynt yn Brydeinig.
- Diplomyddion
- Pobl sy'n Gadael Gofal dan 25 oed

Bydd y bil ar gyfer eiddo lle na chaiff un o'r ddau oedolyn eu cyfrif yr un peth â bil eiddo ag un preswylydd yn unig a byddwch yn cael gostyngiad o 25%. Os bydd rhywun nad yw'n cael ei ystyried yn byw ar ei ben ei hun, neu gyda phobl eraill nad ydynt yn cael eu hystyried, bydd gostyngiad o 50% yn gymwys.

## 2. EIDDO ESEMPT -

Os yw eich eiddo yn esempt, nid oes angen i chi dalu'r Dreth Gyngor. Mae'r esemptiadau fel a ganlyn:

**Dosbarth Esemptiad  Rheswm dros Esemptio'r Eiddo**

| Dosbarth Esemptiad | Rheswm dros Esemptio'r Eiddo |
|---|---|
| A | Bod gwaith strwythurol neu waith atgyweirio sylweddol wedi'i wneud neu'n mynd rhagddo yn yr eiddo, neu fod angen gwaith o'r fath. Hefyd ei fod heb ei ddodrefnu i raddau helaeth (esempt am hyd at 12 mis). |
| B | Neb yn byw yno ac elusen yn berchen arno (esempt am hyd at 6 mis) |
| C | Neb yn byw yno a heb ei ddodrefnu i raddau helaeth (esempt am hyd at 6 mis) |
| D | Wedi'i adael yn wag gan berson(au) sydd yn y carchar. |
| E | Wedi'i adael yn wag gan berson(au) sydd yn yr ysbyty neu gartref nyrsio/gofal. |
| F | Neb yn byw yno ar ôl i'r preswyliwr/preswylwyr farw (esempt am hyd at 6 mis ar ôl profiant neu lythyrau gweinyddu) |
| G | Mae'r gyfraith yn gwahardd unrhyw un rhag byw yno |
| H | Neb yn byw yno ac wedi'i gadw ar gyfer gweinidog crefyddol. |
| I | Wedi'i adael gan berson(au) sy'n cael gofal mewn lle arall (heblaw ysbyty neu gartref nyrsio neu ofal). |
| J | Wedi'i adael gan berson(au) byw sy'n rhoi gofal mewn man arall. |
| K | Eiddo gwag sy'n eiddo i fyfyriwr/myfyrwyr a dim ond myfyriwr/myfyrwyr a oedd yn byw yno ddiwethaf. |
| L | Eiddo gwag wedi'i adfeddiannu. |
| M | Neuaddau preswyl yn bennaf ar gyfer llety myfyrwyr. |
| N | Dim ond myfyriwr/myfyrwyr sy'n byw yno, gan gynnwys unrhyw wŷr/gwragedd neu ddibynyddion nad ydynt yn Ddinasyddion Prydeinig na allant weithio na hawlio budd-daliadau, a'r rhai sydd wedi gadael yr ysgol neu'r coleg. |
| O | Yn eiddo i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn. |
| P | Mae aelodau o'r lluoedd tramor yn byw yno. |
| Q | Neb yn byw yno a dan ofal ymddiriedolwr mewn methdaliad. |
| R | Safle carafán neu lanfa cwch nad yw wedi'i feddiannu. |
| S | Dim ond person(au) dan 18 oed sy'n byw yno. |
| T | Neb yn byw yno ond mae'n rhan o eiddo arall ac yn anodd ei osod. |
| U | Dim ond person(au) sydd â nam meddylion difrifol sy'n byw yno. |
| V | Mae diplomyddion penodol yn byw yno. |
| W | Rhandy neu ran annibynnol o eiddo y mae perthynas oedrannus neu anabl i breswylwyr gweddill yr eiddo yn byw yno. |
| X | Eiddo wedi'i feddiannu'n llwyr gan Bobl sy'n Gadael Gofal dan 25 oed neu gan gyfuniad o Bobl sy'n Gadael Gofal a myfyrwyr |

## 3. EIDDO GWAG A PHREMIYMAU

### Eiddo gwag ac eiddo heb ei ddodrefnu'n sylweddol

Mae yna eithriad rhag y tâl am hyd at chwe mis ar gyfer eiddo sydd heb ei feddiannu ac sydd heb ei ddodrefnu'n sylweddol, a dilynir hyn drwy godi'r tâl llawn ar ôl i'r eithriad ddod i ben.

Er mwyn cael ei ddosbarthu fel 'heb ei ddodrefnu'n sylweddol', ni ddylai fod unrhyw ddodrefn yn yr eiddo ac eithrio carpedi, llenni ac eitemau sefydlog.

Er mwyn caniatáu'r eithriad hwn, efallai y bydd angen i ni drefnu ymweliad â'ch eiddo. Gallwn hefyd wneud cais i archwilio'r eiddo unrhyw bryd ar ôl i'r eithriad gael ei roi.

Mae cyfnod yr eithriad yn dechrau o'r dyddiad y tynnwyd y dodrefn o'r eiddo gwag ni waeth a oes newidiadau o ran pwy sy'n atebol am yr eiddo neu'n berchen arno.

Pan fo eiddo wedi bod yn wag ac heb ei ddodrefnu'n sylweddol am fwy na blwyddyn bydd y tâl wedyn yn cynyddu i 200% (mae hyn yn cynnwys tâl premiwm o 100%)._

O’r 1af o Ebrill 2024 bydd premiwm o 200% ar eiddo sydd wedi bod yn wag ac sydd heb ei ddodrefnu yn sylweddol am fwy na 2 flynedd a phremiwm o 300% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am fwy na 3 blynedd.

Mae hyn yn golygu o 1 Ebrill 2024, bydd y taliadau ar gyfer eiddo gwag hirdymor fel a ganlyn –

Yn wag am fwy na blwyddyn - 200% (Tâl Treth Gyngor safonol o 100% a thâl premiwm treth gyngor o 100%)
Yn wag am fwy na 2 flynedd = 300% (Tâl Treth Gyngor safonol o 100% a thâl premiwm treth gyngor o 200%)
Yn wag am fwy na 3 blynedd = 400% (Tâl Treth Gyngor safonol o 100% a thâl premiwm treth gyngor o 300%)

Mae rhai eiddo wedi'u heithrio rhag talu'r ffi premiwm hwn a chodir swm safonol y dreth gyngor arnynt yn unig. Y rhain yw:

- Eiddo sydd wedi’i farchnata i’w werthu neu osod – wedi’i gyfyngu i un flwyddyn
- Anecsau sy'n ffurfio rhan o brif eiddo
- Eiddo a fyddai’n breswylfa i rywun pe na byddent yn byw yn llety’r lluoedd arfog.

**Eiddo wedi'i ddodrefnu nad oes neb yn byw ynddynt**

Hyd at 31 Mawrth 2024 bydd eiddo wedi eu dodrefnu sydd heb neb yn byw ynddynt ac yn ail gartrefi yn denu'r tâl llawn gan amlaf.

Fodd bynnag, gall gostyngiad o 50% fod yn berthnasol

- os yw’r eiddo yn garafán ar lain o dir neu gwch gydag angorfa,
- os ydych hefyd yn gyfrifol am y dreth gyngor mewn eiddo arall sy'n gysylltiedig â swydd. Er enghraifft, tafarn,
- os ydych yn aelod o'r lluoedd arfog ac yn byw mewn eiddo a ddarperir, neu
- os yw’r person sy’n atebol am y taliad wedi marw ac nid oes grant profiant wedi’i gymeradwyo, neu mae llai na 12 mis wedi bod ers cymeradwyo’r grant profiant.

O 1 Ebrill 2024 bydd premiwm o 100% yn berthnasol i ail gartrefi ac eiddo wedi'u dodrefnu lle nad oes neb yn byw. Mae hyn yn golygu y bydd tâl treth gyngor o 200%.

Mae rhai eiddo wedi'u heithrio rhag talu'r ffi premiwm a chodir swm safonol y dreth gyngor arnynt yn unig. Y rhain yw:

- eiddo sydd ar werth neu ar osod (am hyd at 12 mis yn unig),
- anecs sy'n rhan o'ch prif eiddo,
- eiddo a fyddai'n brif breswylfa i chi pe na baech yn byw mewn llety lluoedd arfog.

- lllain sydd â charafán neu angorfa sydd â chwch,
- cartref tymhorol na allwch fyw ynddo gydol y flwyddyn, neu
- eiddo sy'n gysylltiedig â swydd.

**4. POBL AG ANABLEDDAU -**

Os yw eich eiddo wedi'i addasu ar gyfer anghenion person anabl, gallech gael gostyngiad Anabledd yn y Dreth Gyngor. Os yw'ch eiddo ym mandiau B i H, byddem yn cyfrifo eich bil fel petai'r eiddo wedi'i osod yn y band yn union o dan yr un a ddangosir yn y rhestr brisio. Os yw eich eiddo ym mand A, byddem yn lleihau'r Dreth Gyngor gyda chanran sefydlog.

**5. GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR -**

Gallai Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor helpu tuag at dalu eich Treth Gyngor os ydych ar incwm isel. Bydd y cynllun yn disodli Budd-dal y Dreth Gyngor o 1 Ebrill 2013.

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r gostyngiadau hyn ewch i **www.caerdydd.gov.uk/trethgyngor**.neu cysylltwch â ni. Gallwch hefyd gwblhau cais am ostyngiad person sengl, gostyngiad anabledd neu ofyn am ffurflen Gostyngiad y Dreth Gyngor ar-lein.

**6. BANDIAU PRISIO'R DRETH GYNGOR -**

Gwnaeth Asiantaeth y Swyddfa Brisio gwblhau ailbrisiad o'r holl eiddo yng Nghymru ac mae pob eiddo wedi'i osod yn un o naw band yn ôl ei werth cyfalaf ar 1 Ebrill 2003. Bydd eich bil ar gyfer y Dreth Gyngor yn dangos y band ar gyfer eich eiddo.  Dyma'r bandiau yng Nghymru: -

| Band | Gwerth yr Eiddo | Band | Gwerth yr Eiddo | Band | Gwerth yr Eiddo |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Hyd at £44,000 | B | £44,001-£65,000 | C | £65,001-£91,000 |
| D | £91,001-£123,000 | E | £123,001-£162,000 | F | £162,001-£223,000 |
| G | £223,001- £324,000 | H | £324,001-£424,000 | I | £424,001 ac uwch |

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich band, gallwch gysylltu ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn https://www.gov.uk/contact-voa neu drwy ffonio 03000 505505. Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8:30am a 5:00pm

**7. APELIADAU -**

I gael rhagor o wybodaeth am eich band neu i apelio yn ei erbyn, cysylltwch ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn https://www.gov.uk/contact-voa neu drwy ffonio 03000 505505.

Os hoffech wneud apêl yn erbyn rhai penderfyniadau gennym ni, fel materion am atebolrwydd, eiddo taladwy a chyfrifiad eich Treth Gyngor, cysylltwch â ni er mwyn i ni adolygu eich cais. Os nad ydych yn fodlon â'n hadolygiad, gallwch apelio i'r Tribiwnlys Prisio.

**8. ATEBOLRWYDD AR Y CYD A NIFERUS AR GYFER MYFYRWYR -**

Ni all myfyrwyr fod yn atebol ar y cyd am y Dreth Gyngor â phobl nad ydynt yn fyfyrwyr. Os ydych yn credu eich bod wedi cael eich bilio yn anghywir, cysylltwch â ni. I gael rhagor o wybodaeth am fyfyrwyr a'r dreth gyngor ewch i **www.caerdydd.gov.uk/trethgyngor**.

**9. GOSTYNGIAD YN ÔL DISGRESIWN -**

Mae gennym y disgresiwn i roi gostyngiadau i unigolion neu gategorïau penodol o eiddo. Ni sy'n pennu lefel y gostyngiad hwn oherwydd mae'n rhaid i ni dalu'r gost lawn. Dim ond pan fo amgylchiadau eithriadol ac unrhyw ostyngiadau eraill eisoes wedi'u hawlio y caiff y gostyngiad ei ystyried. I wneud cais dylech ysgrifennu at Reolwr y Dreth Gyngor BLWCH SP 9000, Caerdydd, CF10 3WD neu e-bostio trethgyngor@caerdydd.gov.uk yn amlinellu eich rhesymau. Dyfynnwch eich rhif cyfrif treth gyngor bob amser pan fyddwch yn cysylltu â ni.

**10. Diogelu Data a Rhannu Gwybodaeth -**

Bydd yr wybodaeth sydd gan y Cyngor mewn perthynas â chi yn cael ei thrin yn gyfrinachol a chaiff ei phrosesu fel y caniateir yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU). Gellir rhannu gwybodaeth â gwasanaethau eraill y Cyngor at ddibenion atal a chanfod twyll ac i gydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol a rheoliadol. Mae dyletswydd ar yr awdurdod hwn i ddiogelu'r arian cyhoeddus y mae'n ei weinyddu a gall ddefnyddio'r wybodaeth a roddoch at y dibenion hynny. Mae'n bosibl y rhennir yr wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn

I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein Hysbysiad Prosesu Teg - Testun Cryno yn Hysbysiad Preifatrwydd (caerdydd.gov.uk) a thestun llawn yr Hysbysiad Prosesu Teg ar wefan Archwilio Cymru Polisi preifatrwydd a chwcis yn | Archwilio Cymru neu cysylltwch â: Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth, Ystafell 537 Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW E-bost diogeludata@caerdydd.gov.uk

**11. DULL TALU**

Gallwch dalu'r Dreth Gyngor yn y ffyrdd canlynol:

**Debyd Uniongyrchol**

I drefnu debyd uniongyrchol: - llenwch ffurflen gais ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/trethgyngor



**Rhyngrwyd**
Gallwch dalu gyda cherdyn Debyd neu Gredyd ar y rhyngrwyd. Gallwch ddod o hyd i'r gwasanaeth hwn yn www.caerdydd.gov.uk/trethgyngor

**Cerdyn Debyd / Credyd**
I ddefnyddio ein system daliadau awtomatig, ffoniwch 02920 445900 a dewiswch opsiwn 1. Mae'r system ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Cyn ffonio bydd angen eich Rhif Cyfrif y Dreth Gyngor, eich Cerdyn Credyd neu Ddebyd arnoch

a’r swm rydych am ei dalu.

**Talu drwy’r Post**
Anfonwch eich siec neu orchymyn post atom ni. Gwnewch eich sieciau neu archebion post yn daladwy i Cyngor Dinas Caerdydd, nid swyddog unigol. Peidiwch ag anfon arian yn y post a chofiwch nodi rhif eich cyfrif y dreth gyngor pan fyddwch yn gwneud y taliad. Ni dderbynnir sieciau ôl-ddyddiedig.

**Wyneb yn wyneb**

Gallwch dalu ag arian parod neu siec mewn unrhyw Swyddfa Bost. Gallwch dalu ag arian parod mewn siopau sy’n arddangos yr arwydd PayPoint. Bydd angen cerdyn talu’r dreth gyngor arnoch i wneud y taliadau hyn. Os nad oes gennych gerdyn, cysylltwch â ni.

**Manylion Banc**

Nat West Bank, 96 Heol-y-Frenhines,

Caerdydd, CF10 2GR

Ein cod didoli yw 52-21-06

Ein rhif cyfrif yw 20408838

## 12. TALU DROS AMSER

Os hoffech i’ch rhandaliadau redeg hyd at fis Mawrth yn hytrach na mis Ionawr, anfonwch e-bost atom (cofiwch gynnwys eich enw a’ch cyfeiriad) yn: ctax@caerdydd.gov.uk, ffoniwch (029) 2087 2088 neu ewch ati i drefnu debyd uniongyrchol fel y nodir uchod. Bydd hynny’n golygu eich bod yn talu llai bob mis. Yna byddwn yn anfon bil diwygiedig atoch a fydd yn cynnwys manylion eich rhandaliadau newydd.

## 13. NEWID MEWN AMGYLCHIADAU

Os yw eich amgylchiadau neu’ch cyfeiriad wedi newid, bydd angen i chi roi gwybod i ni ar unwaith. Rhaid i chi roi gymaint o wybodaeth â phosibl i ni. Er enghraifft, y dyddiad y gwnaethoch newid eich cyfeiriad, eich hen gyfeiriad a’ch cyfeiriad newydd, enw llawn y person sydd wedi prynu eich hen eiddo ac ati. Gallwch hefyd gwblhau ffurflen newid cyfeiriad ar-lein.

## 14. GOHEBIAETH

Mae’r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â chi yn eich dewis iaith boed yn Gymraeg, yn Saesneg neu’n ddwyieithog dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.

## 15. GWASANAETHAU AR-LEIN

Yn ogystal â threfnu debyd uniongyrchol ar-lein a rhoi gwybod i ni am newid yn eich amgylchiadau, gallwch hefyd ddefnyddio eich rhif cyfrif treth gyngor i fewngofnodi a gweld manylion eich taliadau treth gyngor, y taliadau yr ydych wedi'u gwneud ac unrhyw gostau sy'n ddyledus.

I ddefnyddio holl wasanaethau ar-lein y dreth gyngor, mewngofnodwch i'n gwefan **www.caerdydd.gov.uk/trethgyngor**.

I reoli eich cyfrif personol, y cyfan sy'n rhaid i chi ei wneud yw mewngofnodi drwy glicio ar 'Fy Nhreth Gyngor ar-lein'. Eich rhif cyfrif Treth Gyngor yw'r unig beth sydd ei angen arnoch. Gallwch ddod o hyd i'r rhif hwn ar eich bil Treth Gyngor neu unrhyw ohebiaeth gennym.

## 16. Cofrestru ar gyfer Bilio Electronig

Dyma'r ffordd gyflymaf, hawsaf a mwyaf ecogyfeillgar o reoli eich biliau. I gofrestru, ewch i www.carerdydd.gov.uk/biliautrethgyngor <http://www.cardiff.gov.uk/counciltaxebills> a dilynwch y cyfarwyddiadau neu lawrlwythwch ein app Caerdydd gov am ddim ar yr Apple neu Google Play Stores. www.caerdydd.gov.uk/app <http://www.cardiff.gov.uk/app>

## 17. CYSYLLTU Â NI

Dylech bob amser ddyfynnu eich rhif cyfrif y Dreth Gyngor pan fyddwch yn cysylltu â ni

| | |
|---|---|
| Ffôn: | 029 2087 2088<br>Oriau agor: Llun - Gwener 8.30am - 5pm |
| Cyfeiriad: | Treth Gyngor, Blwch SP 9000, Caerdydd, CF10 3WD |
| Ar-lein: | www.caerdydd.gov.uk |
| E-bost: | ctax@caerdydd.gov.uk |
| Wyneb yn wyneb | Ewch i'ch hyb lleol, am fanylion amseroedd agor a lleoliadau ewch i www.caerdydd.gov.uk/hybiau |